



Dyddiad a Crëwyd: 21/05/2018
Dyddiad y
Cyhoeddwyd: 21/05/2018
Rhif y Fersiwn: 1.00

Maes Gwasanaeth:	Dysgu, Addysg a Chynhwysiant
Maes Gwaith:	Tîm Asesu Statudol a Chymorth Ychwanegol
Manylion cyswllt:	Irene Yendle, Swyddog Statudol 01443 866635/Yendli@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro'r modd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio eich gwybodaeth os byddwn yn cael cais i gynnal asesiad statudol ohonoch chi neu eich ysgol/lleoliad addysg yn gofyn am gymorth cyllid ychwanegol, am fod arnoch angen help ychwanegol i sicrhau cynnydd.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth?

Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Categoriâu/Ffynhonnell y data personol a gesglir

Gallwch chi neu'r Rhieni/Gofalwyr, yr Ysgolion, y Gwasanaethau Plant a'r Gweithwyr Iechyd Proffesiynol wneud cais i gwblhau asesiad statudol ohonoch chi (y Dysgwr)

Mae ysgolion/lleoliadau addysgol yn gwneud cais am gymorth cyllid ychwanegol i gynorthwyo dysgwyr yn rhan o Adnodd Cynorthwyol Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, pan fo ar ddysgwyr angen cymorth ychwanegol i gyflawni cynnydd.

Er mwyn ein galluogi i brosesu ceisiadau o'r fath, gall yr unigolyn/sefydliad sy'n gwneud yr atgyfeiriad gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i ni.

- Enw a Manylion cyswllt;
- Cofnodion meddygol;
- Adroddiadau Addysgol;
- Manylion amgylchiadau teuluol (y Gwasanaethau Plant)
- Presenoldeb yn yr ysgol/Dyddiad gwahardd/Data cyrhaeddiad

Os nad ydych yn siŵr pwy sydd wedi cyflwyno'r cais, cysylltwch â ni ar y manylion uchod am ragor o wybodaeth.

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

- Gall yr ysgol neu'r lleoliad cyn-ysgol ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr, a hynny, weithiau, gyda chymorth arbenigwyr o'r tu allan. Mae ysgolion yn cael cyllid i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy roi cymorth ychwanegol neu benodol iddynt. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gofynnir i'r Awdurdod Lleol ddyrannu cymorth ychwanegol a/neu gwblhau asesiad statudol o anghenion addysgol y dysgwr.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried pob cais am gymorth ychwanegol/asesiadau statudol a ddaw i law gan y dysgwr, yr ysgolion, y rhieni ac asiantaethau eraill.
- Mae'r ceisiadau am gymorth ychwanegol yn cael eu trafod ar Baneli Arbenigol yr Awdurdod Lleol, gyda Swyddogion o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol a Phenathiaid o'r Awdurdod Lleol yn bresennol ar y paneli hynny.
- Mae'r Asesiad Statudol yn asesiad manwl iawn o ddysgwyr, a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys gwybodaeth gan y rhieni/gofalwyr, y dysgwr, yr ysgol, y Seicolegydd Addysg, y gweithwyr iechyd proffesiynol ac, os yw'n briodol, y Gwasanaethau Plant. Mae'r asesiad yn canfod a oes ar y dysgwr angen Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.
- Mae'r Datganiad yn ddogfen gyfreithiol sy'n disgrifio pa gymorth sy'n ofynnol ar gyfer y dysgwr er mwyn bodloni ei anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae'r broses yn cymryd hyd at 26 wythnos, ac yn rhan o hynny mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y dystiolaeth a ddarperir gan bob asiantaeth cyn penderfynu a yw'r dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.
- Mae pob Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei adolygu'n flynyddol, ac mae'n cynnwys rhannu gwybodaeth wedi'i diweddarau gan y dysgwr, y rhiant/gofalwr, yr ysgolion, y Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol, a'r Gwasanaethau Plant, lle bo angen.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

Manylir isod ar rwymedigaeth y dasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth:

Deddf Addysg (1996/2002);

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)

Er mwyn sicrhau bod y gwaith prosesu data personol yn gyfreithlon o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1e. mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol i gyflawni tasg sy'n cael ei chynnal mewn perthynas â budd y cyhoedd, neu wrth gynnal yr awdurdod swyddogol a freiniwyd i'r rheolwr;

Mae'r ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai mathau o wybodaeth, sef y 'data personol arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn perthyn i'r diffiniad o ddata personol arbennig, yna bydd yn rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel y nodir isod:

- 6 (1) Cyflawnir yr amod hwn os bydd y gwaith prosesu —
- (a) yn angenrheidiol at ddiben a restrir yn is-baragraff (2), a
 - (b) yn angenrheidiol ar sail rhesymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd.
- (2) Mae'r dibenion hynny'n cynnwys —
- (a) arfer swyddogaeth a roddir i unigolyn trwy ddeddfiad neu reol gyfreithiol;
 - (b) arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu adran o'r llywodraeth.

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Hunaniaeth y Rheolwr Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones

Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data

E-bost: diogeludata@caerphilly.gov.uk

Rhif Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd y Tîm Asesu Statudol a Chymorth Ychwanegol.

Mae'r ceisiadau am gymorth ychwanegol yn cael eu trafod ar Baneli Arbenigol yr Awdurdod Lleol, gyda Swyddogion o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol a Phenaethiaid o'r Awdurdod Lleol yn bresennol ar y paneli hynny.

Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Er mwyn cynnal Asesiad Statudol/cais am gymorth ychwanegol, bydd yn rhaid i ni weithio gyda meysydd gwasanaeth eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ogystal â gwneud ceisiadau/rhannu gwybodaeth â nhw. Bydd y gwasanaethau hyn yn cynnwys:

- Plant a Phobl Ifanc (Y Dysgwr)
- Derbyniadau Addysg
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaethau Plant
- Diogelu
- Uned Cludiant Teithwyr
- Archwilio/Cyllid

Manylion unrhyw arferion o ran rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau eraill

Er mwyn cynnal Aseiad Statudol/cais am gymorth ychwanegol, bydd yn rhaid i ni weithio gyda sefydliadau eraill, yn ogystal â gwneud ceisiadau/rhannu gwybodaeth â nhw. Bydd y sefydliadau hyn yn cynnwys:

- Gyrfa Cymru
- Y Byrddau Iechyd
- Llywodraeth Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- SNAP Cymru
- Ysgolion a Lleoliadau Addysgol a Gynhelir
- Meithrinfeydd, Ysgolion a Lleoliadau/Ysgolion Arbenigol Annibynnol nas cynhelir/Awdurdodau Lleol Eraill

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hól, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth am 35 mlynedd ar ôl cau eich achos.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt), gan gynnwys:

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
 - Yr hawl i gael gwybod
 - Yr hawl i gywiro
 - Yr hawl i ddileu
 - Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
 - Yr hawl i wrthwynebu
 - Yr hawl i gludadwyedd data
 - Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints